

---

## **Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos**

Canllaw ar y gofynion newydd ar llwyfannau rhannu fideos (VSPs) a dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio

---

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg	1
2. Diffiniadau a gofynion ar VSPs	2
3. Dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio VSPs	6
4. Mesurau priodol	8
5. Cwestiynau Cyffredin	13

# 1. Trosolwg

Mae llwyfannau rhannu fideos (VSPs) yn fath o wasanaeth fideos ar-lein. Un o brif nodweddion y math hwn o wasanaeth yw ei fod yn galluogi defnyddwyr i lwytho fideos i fyny a'u rhannu gydag aelodau o'r cyhoedd. Mae VSPs yn caniatáu i ddefnyddwyr ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gynnwys a nodweddion cymdeithasol. Bydd rheoliadau newydd yn berthnasol i VSPs sydd wedi'u sefydlu yn y DU o 1 Tachwedd 2020.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer darparwyr VSP. Mae'n cynnwys sut mae penderfynu a yw gwasanaeth yn dod o fewn y cwmpas a'r gofynion deddfwriaethol allweddol ar ddarparwyr, yn enwedig y gofyniad i gymryd camau priodol i ddiogelu defnyddwyr rhag mathau penodol o niwed. Bwriad y canllaw byr hwn yw helpu rhanddeiliaid i ddeall y rhwymedigaethau a fydd yn berthnasol o 1 Tachwedd 2020 yn ogystal â'r ffordd y bydd Ofcom yn mynd ati i gyflawni ei ddyletswyddau newydd o'r dyddiad hwn. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd Ofcom hefyd yn datblygu canllaw rheoleiddio manylach ar gyfer VSPs, ac yn ymgynghori'n gyhoeddus arno.

## Beth sydd wedi'i gynnwys yn y canllaw hwn?

- Bydd y gofynion statudol ar gyfer darparwyr VSP yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2020. Mater i'r darparwyr VSP yw asesu a yw gwasanaeth yn rhan o gwmpas y rheoliad ac felly'n gorfod cydymffurfio â'r gofynion newydd o'r dyddiad hwn ymlaen. O 6 Ebrill 2021, bydd yn rhaid i ddarparwyr VSP hysbysu Ofcom eu bod yn rhan o gwmpas y rheoliad. Rydym yn gobeithio cyhoeddi canllaw pellach ar gwmpas ac awdurdodaeth yn ddiweddarach eleni.
- Rhaid i ddarparwyr VSP gymryd camau priodol i ddiogelu plant (dan 18 oed) rhag cynnwys a allai amharu ar eu datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol. Rhaid i ddarparwyr VSP hefyd gymryd camau priodol i ddiogelu'r cyhoedd rhag cynnwys sy'n ysgogi trais neu gasineb, a chynnwys troseddol sy'n ymwneud â therfysgaeth; camfanteisio'n rhywiol ar blant a cham-drin; a hiliaeth a senoffobia. Mae'r camau y mae'n rhaid i ddarparwyr VSP ystyried eu cymryd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth ac fe'u disgrifir yn y ddogfen hon.
- Bydd Ofcom yn ceisio ymgysylltu â darparwyr VSP wrth inni ddechrau rhoi'r drefn newydd ar waith. Byddwn yn helpu darparwyr VSP i ddeall y camau y dylent eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo hynny'n briodol. Byddwn yn ymgynghori ynghylch canllaw ar y risg o niwed a mesurau priodol yn gynnar yn 2021 ac yn ei gyhoeddi yn ystod haf 2021.
- Cyn cyhoeddi ein canllaw ar niwed a mesurau, rydym yn disgwyl rhoi blaenoriaeth i'r achosion posibl o dor-amod mwyaf difrifol yn unig at ddibenion cymryd camau gorfodi ffurfiol. Bydd unrhyw gamau gorfodi a gymerir yn unol â'n canllawiau presennol ar gyfer ymchwiliadau rheoleiddiol.

## 2. Diffiniadau a gofynion ar VSPs

### Beth yw'r rheoliadau newydd?

- 2.1 Mae diwygiad 2018 i'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ("AVMSD" neu "y Gyfarwyddeb") yn cyflwyno fframwaith rheoleiddio ar gyfer categori newydd o wasanaeth, llwyfannau rhannu fideos, neu "VSPs".
- 2.2 Mae'r Llywodraeth wedi trawsosod y fframwaith VSP yn Rhan 4B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf").<sup>1</sup> Bydd yn dod i rym ar 1 Tachwedd 2020, a bydd yn rhaid i ddarparwyr VSP gydymffurfio â'r gofynion newydd (ar wahân i'r gofyniad i hysbysu Ofcom a thalu ffi reoleiddio) o'r dyddiad hwn ymlaen.
- 2.3 Mae'r darpariaethau newydd yn cynnwys gofyniad i gymryd camau priodol i ddiogelu plant rhag cynnwys niweidiol, ac i ddiogelu'r cyhoedd rhag deunydd sy'n cymell casineb a thrais a rhag cynnwys troseddol. Maent hefyd yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â safonau ar gyfer hysbysebu.<sup>2</sup> Rydyn ni'n trafod y gofynion newydd yn fanylach isod.
- 2.4 O dan y fframwaith statudol, mae'n rhaid i Ofcom gyhoeddi canllaw ar y mesurau sydd ar gael i ddarparwyr VSP er mwyn diogelu defnyddwyr rhag niwed. Mae'r canllaw hwn yn nodi disgwyliadau Ofcom ar gyfer rheoleiddio VSPs nes bydd canllaw pellach ar niwed a mesurau'n cael ei gyhoeddi'r flwyddyn nesaf. Mae Ofcom yn bwriadu ymgynghori ar y canllaw hwn ddechrau 2021 a'i gyhoeddi erbyn yr haf 2021. Yn ddiweddar, mae Ofcom wedi cwblhau Cais am Dystiolaeth er mwyn llywio datblygiad y canllaw hwn.<sup>3</sup>
- 2.5 Mae Ofcom yn deall mai bwriad y Llywodraeth yw i'r camau i reoleiddio VSPs fod ar waith nes bydd y drefn Niwed Ar-lein newydd yn dod i rym.<sup>4</sup>

### Sut mae VSPs yn cael eu diffinio?

- 2.6 O dan adran 368S y Ddeddf, mae gwasanaeth, neu ran ddatgysylltiol o wasanaeth, yn VSP os yw'r gwasanaeth, neu'r rhan ddatgysylltiol, yn bodloni'r amodau a restrir ym mharagraff 2.7 isod a bod unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:
  - a) darparu fideos i aelodau o'r cyhoedd yw prif ddiben y gwasanaeth neu adran ddatgysylltiol y gwasanaeth; neu
  - a) mae darparu fideos i aelodau o'r cyhoedd yn un o swyddogaethau hanfodol y gwasanaeth (yn ei gyfanrwydd).<sup>5</sup>

---

<sup>1</sup> [Rheoliadau Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol 2020](#)

<sup>2</sup> Mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio at "gyfathrebiadau masnachol clyweledol" ("AVCCs"). Mae AVCCs yn derm sy'n cael ei ddefnyddio ar draws nifer o sectorau ac mae'n cynnwys hysbysebu, yn ogystal â noddi, telesiopa a gosod cynnyrch, yn ogystal â marchnata dylanwadwyr a mathau eraill o gyfathrebiad masnachol sy'n gysylltiedig â VSPs. Yn y canllaw hwn, defnyddir "hysbysebion" a "hysbysebu" i gyfeirio'n gryno at "AVCCs".

<sup>3</sup> [Rheoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos: Cais am Dystiolaeth](#), 16 Gorffennaf 2020

<sup>4</sup> [Papur Gwyn Niwed Ar-lein](#)

<sup>5</sup> I gael rhagor o wybodaeth am y diffiniad o swyddogaethau hanfodol, edrychwch ar [Ganllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar Swyddogaethau Hanfodol](#)

- 2.7 Dyma'r amodau ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni mewn perthynas â'r gwasanaeth neu ran ddatgysylltiol y gwasanaeth:
- a) ei fod yn cael ei ddarparu drwy rwydwaith cyfathrebu electronig;
  - b) ei fod yn cael ei darparu ar sail fasnachol;
  - c) nad oes gan y sawl sy'n ei ddarparu reolaeth gyffredinol dros ba fideos sydd ar gael arno, ond bod ganddo reolaeth gyffredinol dros y ffordd y caiff fideos eu trefnu arno (sy'n cynnwys cael eu trefnu'n awtomatig neu drwy algorithmau, yn enwedig drwy arddangos, tagio a threfnu); a
  - ch) bod yr unigolyn hwnnw o dan awdurdodaeth y Deyrnas Unedig.
- 2.8 Rhaid bodloni'r meini prawf a nodir yn y Ddeddf i gyd er mwyn i'r diffiniad fod yn gymwys. Mewn geiriau eraill, rhaid i o leiaf un o'r meini prawf ym mharagraff 2.6 fod yn gymwys a rhaid bodloni'r holl amodau ym mharagraff 2.7 er mwyn i wasanaeth neu ran ddatgysylltiol o wasanaeth fod yn VSP.

## Awdurdodaeth y DU

- 2.9 Ar gyfer gweddill cyfnod pontio Brexit, mae VSP o dan awdurdodaeth y DU at ddibenion AVMSD os caiff ei sefydlu yn y DU o dan y [Gyfarwyddeb eFasnach](#). Mae'r cysyniad o "sefydliad" yn golygu mynd ar drywydd gweithgarwch economaidd yn effeithiol sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaeth dan sylw, neu ran ddatgysylltiol o wasanaeth, drwy sefydliad penodedig yn y DU. Os caiff darparwr VSP ei sefydlu yn y DU ac mewn un neu fwy o aelod-wladwriaethau'r UE,<sup>6</sup> bydd yn dod o dan awdurdodaeth y DU os yw craidd ei weithgareddau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth, neu ran ddatgysylltiol o'r gwasanaeth, yn y DU.
- 2.10 Os nad yw darparwr VSP wedi'i sefydlu yn y DU neu mewn aelod-wladwriaeth yr UE o dan delerau'r Gyfarwyddeb eFasnach, gall ei wasanaeth fod o dan awdurdodaeth y DU o hyd os oes ganddo riant gwmni neu is-gwmni yn y DU, neu os yw'n rhan o grŵp a bod menter arall yn y grŵp hwnnw wedi'i sefydlu yn y DU. Pan fydd y rhiant fenter, yr is-fenter neu fentrau eraill yn y grŵp o VSPs yn cael ei sefydlu ar draws y DU ac mewn un neu fwy o aelod-wladwriaethau'r UE, mae'r AVMSD yn nodi hierarchaeth y ffactorau sy'n pennu a fydd y VSP yn dod o dan awdurdodaeth y DU neu un o aelod-wladwriaethau'r UE.
- 2.11 Cyflwynodd y Llywodraeth offeryn statudol "pennu" ar 15 Hydref 2020, a oedd yn diwygio Rhan 4B o'r Ddeddf, er mwyn egluro pryd y bydd VSP yn dod o dan awdurdodaeth y DU ar ôl i gyfnod pontio Brexit ddod i ben.<sup>7</sup> Mae'r offeryn statudol yn adlewyrchu'n fras y darpariaethau awdurdodaethol AVMSD a nodir uchod. Yn benodol, mae'r offeryn yn nodi y bydd VSP, ar ôl i gyfnod pontio Brexit ddod i ben, yn dod o dan awdurdodaeth y DU pan fydd ganddo'r cysylltiad angenrheidiol â'r DU. Bydd hyn yn y naill neu'r llall o ddau achos:
- a) Pan fydd VSP yn darparu'r gwasanaeth, neu ran ddatgysylltiol y gwasanaeth, gan ddefnyddio sefydliad penodedig yn y DU am gyfnod amhenodol ac yn mynd ar drywydd gweithgarwch

<sup>6</sup> Ar ôl ymgorffori'r AVMSD yng Nghytundeb yr AEE, bydd y drefn VSP yn berthnasol i wledydd yr AEE. Deallwn fod y broses hon yn parhau. Gweler y [diweddariad ar statws EFTA AVMSD](#).

<sup>7</sup> [Rheoliadau AVMS 2020, Diwygiad Ymadael â'r UE](#)

economaidd yn effeithiol wrth wneud hynny.<sup>8</sup> Os caiff y VSP hefyd ei sefydlu mewn un o aelod-wladwriaethau'r UE,<sup>9</sup> bydd y VSP yn dod o dan awdurdodaeth y DU os yw craidd ei weithgarwch economaidd sy'n ymwneud â'r gwasanaeth neu'r rhan ddatgysylltiol berthnasol yn y DU; neu

- b) Mewn achosion lle nad yw'r VSP wedi'i sefydlu yn y DU yn yr ystyr uchod, a does gan yr un aelod-wladwriaeth o'r UE awdurdodaeth o dan yr AVMSD, bydd yn dal yn dod o dan awdurdodaeth y DU os oes ganddo fenter grŵp wedi'i sefydlu yn y DU.<sup>10</sup>

2.12 Byddwn yn diweddarau'r canllaw hwn i adlewyrchu unrhyw newidiadau pellach a wneir i'r rheolau a fydd yn berthnasol ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben er mwyn pennu awdurdodaeth y DU.

2.13 Y darparwyr sy'n gyfrifol am asesu a ydynt yn rhedeg gwasanaeth sy'n debygol o fod yn rhan o gwmpas y drefn newydd ac sydd o fewn awdurdodaeth y DU. Rydym yn gobeithio cyhoeddi canllaw i helpu gwasanaethau i ddeall a ydynt yn bodloni'r diffiniad o VSP ac a ydynt o fewn awdurdodaeth y DU yn ddiweddarach eleni.

## Beth yw'r prif ofynion ar VSPs?

2.14 Prif bwrpas y drefn VSP newydd yw sicrhau bod darparwyr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn rhag y risg o weld cynnwys niweidiol.

## Diogelu defnyddwyr rhag niwed

2.15 Mae'n rhaid i ddarparwyr VSP gymryd y camau a restrir yn y ddeddfwriaeth fel sy'n briodol at y dibenion canlynol:

- a) Diogelu unigolion dan 18 oed rhag fideos a hysbysebion sy'n cynnwys **deunydd wedi'i gyfyngu**.

Mae **deunydd wedi'i gyfyngu** yn cyfeirio at fideos sydd, neu sy'n debygol o fod â thystysgrif R18, neu y gwrthodwyd tystysgrif iddo neu a fyddai'n debygol o gael ei wrthod.<sup>11</sup> Mae hefyd yn golygu deunydd arall a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl ifanc o dan 18 oed.

- b) Diogelu'r cyhoedd rhag fideos a hysbysebion sy'n cynnwys **deunydd niweidiol perthnasol**.

<sup>8</sup> Ni fydd presenoldeb a defnydd o'r dulliau technegol a thechnolegau sy'n angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaeth, neu ran ddatgysylltiol y gwasanaeth, ynnddo'i hun yn cyfateb i sefydliad.

<sup>9</sup> Bydd y darpariaethau wrth bennu offeryn statudol sy'n ymwneud ag aelod-wladwriaethau'r UE hefyd yn berthnasol i aelod-wladwriaethau'r AEE unwaith y bydd yr AVMSD yn cael ei ymestyn iddynt. Gweler troednodyn 6 uchod.

<sup>10</sup> Mae'r term "menter grŵp" yn cyfeirio at riant fenter neu is-fenter darparwr VSP, is-gwmni i riant fenter darparwr VSP, ac unrhyw fenter sydd â chysylltiadau economaidd a chyfreithiol â VSP.

<sup>11</sup> Yn y fan hon mae tystysgrif yn cyfeirio at 'dystysgrif dosbarthiad' sydd â'r un ystyr yn y Ddeddf Recordiadau Fideo 1984. Gweler [Canllawiau'r BBFC ar Ddosbarthu](#) (tudalennau 28 – 31) am ragor o wybodaeth ynghylch tystysgrifau R18 a gwrthod rhoi dosbarthiad i waith.

Mae **deunydd niweidiol perthnasol** yn cyfeirio at unrhyw ddeunydd sy'n debygol o gymell trais neu gasineb yn erbyn grŵp o bobl neu aelod o grŵp o bobl ar sail benodol.<sup>12</sup>

Mae hefyd yn cyfeirio at gynnwys unrhyw ddeunydd a fyddai'n drosedd o dan gyfreithiau sy'n ymwneud â therfysgaeth, camfanteisio'n rhywiol ar blant neu hiliaeth a senoffobia.

- c) Sicrhau bod hysbysebion ar VSPs yn cydymffurfio â gofynion hysbysebu penodol ynghylch tryloywder, deunydd sydd wedi'i wahardd neu wedi'i gyfyngu, yn ogystal â chydymffurfio â gofynion hysbysebu cyffredinol (gweler paragraffau 4.20 – 4.27).

2.16 Rhaid penderfynu a yw mesur yn briodol drwy ystyried a yw'n ymarferol ac yn gymesur. At y dibenion hyn, mae'n rhaid i ddarparwyr VSPs ystyried ffactorau fel maint a natur y gwasanaeth, y math o niwed y gellir ei achosi, nodweddion y rheiny y bwriedir eu diogelu dan y mesur (ee pobl o dan 18 oed neu unrhyw gategori arall o ddefnyddiwr) a hawliau i ryddid mynegiant (gweler paragraffau 4.2 – 4.3).

## Datrys anghydfod y tu allan i'r llys

2.17 Mae'n ofynnol i ddarparwyr VSPs ddarparu ar gyfer gweithdrefn ddiuedd y tu allan i'r llys ar gyfer datrys anghydfodau rhwng defnyddwyr a'r darparwr sy'n ymwneud â'r canlynol:

- a) rhoi camau priodol ar waith, neu
- b) penderfyniad i gymryd, neu i beidio â chymryd, unrhyw gamau o'r fath.

2.18 Ni ddylai'r weithdrefn effeithio ar allu defnyddiwr i ddwyn hawliad mewn achos sifil.

2.19 Sylwch fod y gofyniad hwn i ddarparu camau datrys anghydfod y tu allan i'r llys ar wahân i'r mesur a nodir ym mharagraffau 4.17 – 4.18 isod, lle mae'n rhaid i ddarparwr VSP, pan fo'n briodol, sefydlu a gweithredu trefn gwyno i ddefnyddwyr leisio eu pryderon gyda chamau penodol yn cael eu cymryd gan y darparwr i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed, hynny yw o ran adrodd neu fflagio, sicrhau oedran, systemau sgorio neu fesurau rheoli i rieni. Mewn cyferbyniad, mae'n rhaid i'r camau datrys anghydfod hyn ymdrin â chymryd, methu â chymryd, neu ddefnyddio unrhyw un o'r camau priodol a restrir yn y ddeddfwriaeth ac a nodir ym mharagraffau 4.9 – 4.19.

---

<sup>12</sup> Y seiliau penodol yw: rhyw, hil, lliw, tarddiad ethnig neu gymdeithasol, nodweddion genetig, iaith, crefydd neu gred, barn wleidyddol neu unrhyw farn arall, aelodaeth o leiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth, anabled, oed, tueddfryd rhywiol, neu genedligrwydd (fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 21 [Starter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd](#) dyddiedig 7 Rhagfyr 2000).

## 3. Dull gweithredu Ofcom ar gyfer rheoleiddio VSPs

### Beth rydym yn ei ddisgwyl gan VSPs

- 3.1 Mae darparwyr VSP yn rhwym wrth y rheoliad o 1 Tachwedd 2020, pan fydd y darpariaethau newydd yn dod i rym. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, bydd gan ddarparwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod mesurau ar waith i ddiogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol.
- 3.2 Yn y lle cyntaf, bydd angen i gwmnïau ystyried a ydynt yn darparu gwasanaeth sy'n debygol o fod yn rhan o gwmpas y drefn newydd. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr VSP, sy'n credu bod eu gwasanaeth yn rhan o'r cwmpas, gynnal asesiadau risg i adolygu'r risg o niwed i'w defnyddwyr ac i asesu unrhyw fesurau presennol yn erbyn y gofynion rheoleiddio newydd. Mae hyn yn cynnwys asesu mesurau yn erbyn y meini prawf a nodir ym mharagraffau 4.2 – 4.3 isod, gan gynnwys ystyried yr hawliau a'r buddiannau cyfreithlon sydd yn y fantol, fel yr hawl i ryddid mynegiant.
- 3.3 Mae Ofcom yn deall y bydd rhai darparwyr eisoes wedi sefydlu rhai o'r mesurau a nodir yn Adran 4 isod, ond hefyd y gallai gymryd peth amser i sefydlu rhai o'r mesurau swyddogaethau a gofynion gweinyddol eraill megis dulliau gwneud iawn.
- 3.4 Pan fydd angen cryfhau'r mesurau presennol, neu pan fydd mesurau newydd am gael eu rhoi ar waith, rydym yn disgwyl i ddarparwyr VSP ddechrau drwy flaenoriaethu mesurau cydymffurfio sy'n debygol o fod y mwyaf effeithiol o ran diogelu defnyddwyr rhag deunydd niweidiol, fel diweddarau a gorfodi telerau ac amodau sy'n adlewyrchu'r meysydd o niwed yn y Gyfarwyddeb, a sicrhau nad yw plant yn gallu cael gafael ar ddeunydd sydd wedi'i gyfyngu.
- 3.5 Rydym yn disgwyl i ddarparwyr VSP adolygu effeithiolrwydd unrhyw fesurau maent wedi'u rhoi ar waith yn rheolaidd, a'u diweddarau yn unol â hynny.
- 3.6 Bydd Ofcom yn ceisio ymgysylltu â darparwyr VSP wrth inni ddechrau deall yr arferion presennol a monitro sut mae darparwyr yn cydymffurfio â'r gofynion newydd. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr VSP i sicrhau eu bod yn deall y camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau rheoleiddio newydd ac i ddysgu o'r gwahanol ddulliau rydym yn eu dilyn.

### Sut byddwn yn datblygu ein canllaw ar niwed a mesurau

- 3.7 Drwy ymgysylltu ag Ofcom, bydd cyfle i ddarparwyr VSP ddylanwadu ar ein canllaw ar y risg o niwed a'r mesurau sy'n briodol ar gyfer lliniaru'r risgiau hynny. Bydd cydweithio â'r diwydiant a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn ystod y cyfnod hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod canllaw Ofcom yn seiliedig ar allu llwyfannau, arferion da sy'n bodoli'n barod ac yn adlewyrchu cyflymder y newidiadau mewn technolegau. Bydd ein trafodaethau â'r diwydiant yn canolbwyntio ar ddeall y risg o gynnwys niweidiol ar VSPs a pha mor gyffredin ydyw, yn ogystal â'r camau mae darparwyr VSP yn eu cymryd ar hyn o bryd i ddiogelu eu defnyddwyr.
- 3.8 Bydd ein canllaw yn nodi enghreifftiau o'r mathau o gynnwys y mae Ofcom yn credu a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol plant, gan gynnwys y rheiny sydd â'r



potensial i achosi'r niwed mwyaf. Bydd Ofcom hefyd yn ceisio darparu rhagor o fanylion ynglŷn â'r mathau o fesurau sydd fwyaf priodol ar gyfer diogelu yn erbyn y gwahanol fathau o niwed, a bydd yn cyfeirio at enghreifftiau o arferion da lle bo hynny'n bosibl. Ar ben hynny, bydd Ofcom yn rhoi rhywfaint o arweiniad ar yr hyn y byddem yn disgwyl i asesiad risg darparwr VSP o'i wasanaeth ei gynnwys.

## Ein dull o orfodi

- 3.9 Yn y cyfnod rheoleiddio cynnar byddwn yn canolbwyntio ar weithio gyda darparwyr i'w helpu i ddeall y rhwymedigaethau newydd a thrafod unrhyw gamau y mae angen iddynt eu cymryd i gydymffurfio. Bydd gan Ofcom y pŵer i gymryd camau gorfodi ffurfiol o 1 Tachwedd 2020, ond rydym yn disgwyl rhoi blaenoriaeth i'r achosion posibl o dor-amod mwyaf difrifol yn unig at ddibenion cymryd camau gorfodi ffurfiol nes bydd ein canllaw llawn yn cael ei gyhoeddi y flwyddyn nesaf.
- 3.10 Mae'r drefn newydd yn canolbwyntio ar edrych a yw darparwr VSP wedi cymryd a gweithredu mesurau priodol i leihau neu atal y risg o niwed. Ni fydd digwyddiadau unigol o gynnwys anghyfreithlon neu niweidiol o reidrwydd yn golygu ein bod yn dechrau cymryd camau gorfodi ffurfiol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cael ein hatal rhag gwneud hynny os ydynt yn tynnu sylw at fethiant systemig yn y camau a gymerwyd gan lwyfan.
- 3.11 Fel rhan o unrhyw ymchwiliad i achos posibl o dorri amodau, bydd Ofcom yn ystyried pa mor drylwyr yw asesiad risg darparwr VSP o'i wasanaeth; sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed; a sut mae'r darparwr VSP yn monitro effeithiolrwydd y mesurau mae wedi'u rhoi ar waith (ac yn gwneud gwelliannau lle bo hynny'n briodol).
- 3.12 Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein prosesau gorfodi ac yn edrych a oes angen i ni ddiweddarau'r rhain i adlewyrchu'r darpariaethau newydd. Yn y cyfamser, bydd unrhyw gamau a gymerwn yn unol â'n [canllawiau gorfodi presennol ar gyfer ymchwiliadau rheoleiddiol](#).

## 4. Mesurau priodol

4.1 Rhaid i ddarparwyr VSP gymryd y camau a nodir yn y ddeddfwriaeth (gweler paragraffau 4.8 ymlaen), fel sy'n briodol i ddiogelu plant rhag deunydd sydd wedi'i gyfyngu a'r cyhoedd rhag deunydd niweidiol perthnasol.<sup>13</sup>

### Meini prawf ymarferol a chymesur

4.2 Mae'r fframwaith deddfwriaethol yn nodi'r meini prawf canlynol y mae'n rhaid i ddarparwyr eu hystyried wrth benderfynu a yw'n ymarferol ac yn gymesur i gymryd un neu fwy o'r mesurau a nodir:<sup>14</sup>

- a) maint a natur y VSP;
- b) natur y deunydd dan sylw;
- c) y niwed y gall y deunydd dan sylw ei achosi;
- ch) nodweddion y categori o bobl sydd i'w diogelu (er enghraifft, plant);
- d) mewn perthynas â hysbysebion nad ydynt yn cael eu marchnata, eu gwerthu na'u trefnu gan rywun sy'n darparu VSP, y ffaith nad oes gan y darparwr fawr o reolaeth dros gyfathrebiadau o'r fath;
- dd) yr hawliau a'r buddiannau cyfreithlon sydd yn y fantol, gan gynnwys rhai'r sawl sy'n darparu'r gwasanaeth llwyfan rhannu fideos a'r bobl sydd wedi creu neu lwytho'r deunydd i fyny, yn ogystal â budd cyffredinol y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys hawliau i ryddid mynegiant a hawliau preifatrwydd;
- e) unrhyw gamau eraill a gafodd eu cymryd neu sydd am gael eu cymryd.

4.3 Wrth benderfynu a yw mesur yn briodol i ddiogelu plant rhag deunydd wedi'i gyfyngu, mae'n rhaid i ddarparwyr VSP gymhwyso'r egwyddor bod yn rhaid i ddeunydd sydd â'r potensial mwyaf i niweidio datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol plant (fel pornograffi neu bortreadau o drais yn ddireswm) fod yn ddarostyngedig i'r mesurau rheoli mynediad llymaf.<sup>15</sup>

4.4 Gan ddibynnu ar faint a natur eu gwasanaeth, mae darparwyr VSP yn debygol o fod angen mesurau gwahanol i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed. Mae Ofcom yn croesawu cyfleoedd i ymgysylltu â darparwyr VSP ar y gwahanol fesurau a allai fod yn briodol gan ystyried nodweddion unigol y gwasanaeth.

4.5 Mae Ofcom yn awgrymu bod darparwyr VSP sy'n credu eu bod yn rhan o gwmpas y rheoliad yn cynnal asesiadau risg i bennu lefel y risg i ddefnyddwyr eu gwasanaeth. Dylent hefyd ystyried effeithiolrwydd, neu effeithiolrwydd tebygol, unrhyw fesurau presennol neu arfaethedig o ran

---

<sup>13</sup> Gweler Atodlen 15A y Ddeddf

<sup>14</sup> Gweler adran 368Z1(4) y Ddeddf

<sup>15</sup> Gweler adran 368Z1(5) y Ddeddf

diogelu defnyddwyr. Rydym yn awgrymu bod darparwyr yn dechrau casglu a chadw gwybodaeth ynghylch y risg o niwed yn eu gwasanaeth yn ogystal ag effeithiolrwydd eu mesurau.<sup>16</sup>

4.6 Fel rhan o unrhyw asesiadau risg, efallai y byddai'n ddefnyddiol i ddarparwyr VSP ystyried y canlynol:

- a) Asesu'r mathau o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r VSP, ynghyd â'u nodweddion, yn ogystal â'u potensial i brofi niwed o ganlyniad i'r cynnwys;
- b) Adolygu profiad y defnyddiwr wrth ymweld â'r VSP a rhyngweithio â chynnwys a allai fod yn niweidiol, gan gynnwys effeithiolrwydd y mesurau sy'n ymwneud ag oedran;
- c) Adolygu natur y cynnwys sydd wedi'i fflagio neu ei ddileu eisoes am ei fod yn niweidiol, er mwyn gwella'r prosesau adnabod;
- ch) Asesu faint o gynnwys a'r math o gynnwys sydd wedi'i fflagio neu ei ddileu, er mwyn asesu tueddiadau.

4.7 Darperir y rhestr hon o weithgareddau posibl fel enghraifft yn unig. Bydd angen i ddarparwyr ystyried pa fesurau o'r rhai a restrir isod sy'n briodol i'w hamgylchiadau penodol eu hunain drwy gyfeirio at y meini prawf a nodir ym mharagraff 4.2 uchod. Bydd canllaw Ofcom ar niwed a mesurau yn cynnwys awgrymiadau pellach ynghylch yr hyn y gallai darparwyr VSP ei gynnwys yn eu hasesiadau risg.

## Mesurau priodol at ddibenion diogelu defnyddwyr rhag niwed

4.8 Mae'n bwysig nodi, pan fydd VSP yn cymryd unrhyw un o'r camau a nodir isod, mae'n rhaid iddynt weithredu'r rhain mewn ffordd sy'n diogelu plant a'r cyhoedd rhag deunydd niweidiol ac sy'n sicrhau bod unrhyw hysbysebion yn bodloni'r gofynion hysbysebu perthnasol. Mae'r mesurau yn y ddeddfwriaeth wedi'u crynhoi isod.<sup>17</sup>

### Telerau ac amodau

4.9 Dylid cynnwys telerau ac amodau i'r perwyl os bydd rhywun yn llwytho fideo i fyny sy'n cynnwys unrhyw ddeunydd sydd wedi'i gyfyngu, mae'n rhaid i'r unigolyn hwnnw ddwyn sylw'r darparwr VSP ato.<sup>18</sup>

4.10 Dylid cynnwys telerau ac amodau i'r perwyl na ddylai unigolyn lwytho fideo i fyny sy'n cynnwys deunydd niweidiol perthnasol.

4.11 Dylid cynnwys telerau ac amodau ynghylch gofynion hysbysebion ar y llwyfan (gweler y gofynion hysbysebu isod).

---

<sup>16</sup> Nid yw hyn yn rhoi rhwymedigaeth gyffredinol ar ddarparwr VSP i fonitro'r wybodaeth y maent yn ei throsglwyddo neu'n ei storio. Gweler paragraff 5.8

<sup>17</sup> Gweler Atodlen 15A y Ddeddf

<sup>18</sup> Gall telerau ac amodau yng nghyd-destun rheoleiddio VSP gynnwys canllawiau cymunedol, safonau cymunedol, rheolau neu delerau eraill ar gyfer defnyddio'r gwasanaeth.

## Swyddogaethau

- 4.12 Darparu'r swyddogaeth i rywun sy'n llwytho fideo i fyny allu datgan a yw'r fideo'n cynnwys hysbyseb.
- 4.13 Sefydlu a gweithredu dulliau tryloyw a hawdd eu defnyddio i wylwyr allu adrodd neu fflagio deunydd niweidiol a rhoi esboniad i ddefnyddwyr ynghylch unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i ddeunydd y mae gwylwyr wedi rhoi gwybod amdano neu wedi'i fflagio.
- 4.14 Sefydlu a gweithredu systemau ar gyfer cael sicrwydd ynghylch oedran gwylwyr posibl. Mae'r egwyddor a nodir ym mharagraff 4.3 uchod yn arbennig o berthnasol yma, lle mae'n rhaid i ddarparwyr VSP wneud yn siŵr bod y deunydd sydd â'r potensial mwyaf i niweidio datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol plant yn ddarostyngedig i'r mesurau rheoli mynediad llymaf.
- 4.15 Sefydlu a gweithredu systemau hawdd eu defnyddio sy'n galluogi gwylwyr i roi sgôr i ddeunydd niweidiol.
- 4.16 Darparu ar gyfer systemau rheolaeth rhieni mewn perthynas â deunydd sydd wedi'i gyfyngu.

## Cwynion

- 4.17 Sefydlu a gweithredu trefn gwyno mewn perthynas â rhoi'r canlynol ar waith:
- dulliau adrodd neu fflagio ac mewn perthynas â chanlyniad unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i hynny;
  - systemau sicrhau oedran a systemau sgorio; a
  - rheolaethau rhieni mewn perthynas â deunydd sydd wedi'i gyfyngu.
- 4.18 Mae'n rhaid iddo fod yn dryloyw, yn hawdd ei ddefnyddio ac yn effeithiol, ac ni ddylai effeithio ar allu unigolyn i ddwyn hawliad mewn achos sifil.

## Llythrennedd yn y cyfryngau

- 4.19 Darparu gwybodaeth ac offer i ddefnyddwyr gyda'r nod o wella'u llythrennedd yn y cyfryngau a chodi ymwybyddiaeth o argaeledd gwybodaeth ac offer o'r fath. Mae Ofcom wedi cyhoeddi ymchwil a gwybodaeth ynghylch llythrennedd yn y cyfryngau sydd ar gael ar ein [tudalen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau](#).

## Gofynion ychwanegol o ran hysbysebu

- 4.20 Fel y nodir uchod, mae'r gofynion a osodir ar ddarparwyr VSP o ran deunydd wedi'i gyfyngu a deunydd niweidiol perthnasol mewn fideos yn berthnasol i hysbysebion hefyd. Yn ogystal, mae gofynion penodol o ran hysbysebu.
- 4.21 Mae'r ddeddfwriaeth yn cydnabod y gall darparwyr VSP feddu ar wahanol raddau o reolaeth dros yr hysbysebion sy'n ymddangos ar eu gwasanaethau. Pan fydd darparwyr VSP yn marchnata, yn gwerthu neu'n trefnu eu hysbysebion eu hunain, y nhw sy'n uniongyrchol gyfrifol am gydymffurfio â'r gofynion a grynhoir isod o dan y penawdau "Cynnyrch gwaharddedig a rhai dan gyfyngiad" a "Gofynion hysbysebu cyffredinol".

- 4.22 Pan nad ydynt yn marchnata, yn gwerthu nac yn trefnu hysbysebion eu hunain, mae'n rhaid i ddarparwyr VSP gynnwys telerau ac amodau sy'n mynnu bod defnyddwyr sy'n llwytho fideos i fyny sy'n cynnwys hysbysebion yn cydymffurfio â'r un set o ofynion. Mae gofynion hefyd sy'n ymwneud â thryloywder, ac mae'r rheiny'n berthnasol i bob hysbyseb.
- 4.23 Mae Ofcom yn datblygu ei ddull o wahaniaethu rhwng hysbysebion sydd, ac sydd ddim, yn cael eu marchnata, eu gwerthu na'u trefnu gan ddarparwyr VSP, a bydd yn darparu rhagor o wybodaeth am y maes hwn yn gynnar yn 2021. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar y drefn reoleiddio ar gyfer gorfodi'r gofynion a roddir ar ddarparwyr VSP ar gyfer hysbysebu sydd o dan eu rheolaeth (h.y. lle maent yn uniongyrchol gyfrifol am gydymffurfio). Fel rhan o hyn rydym yn paratoi i ymgynghori ar ddynodi'r Awdurdod Safonau Hysbysebu yn gyd-reoleiddiwr mewn perthynas â'r agwedd hon ar reoleiddio hysbysebion. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar y gofynion hysbysebu sy'n cael eu cyflawni drwy ddarparu mesurau priodol.

### Tryloywder hysbysebu

- 4.24 Pan fydd rhywun sy'n llwytho fideo i fyny i VSP yn defnyddio'r swyddogaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 4.12 uchod i ddatgan bod y fideo'n cynnwys hysbyseb, neu pan fydd y darparwr VSP yn gwybod bod fideo o'r fath yn cynnwys hysbyseb, mae'n rhaid i'r darparwr hysbysu'r gwylwyr yn glir bod y fideo'n cynnwys hysbyseb.

### Cynnyrch gwaharddedig ac o dan gyfyngiad

- 4.25 Gwaherddir hysbysebion ar gyfer y canlynol: sigarennau a chynnyrch tybaco arall; sigarennau electronig a chynwysyddion ail-lenwi sigarennau electronig; neu unrhyw feddyginiaethau presgripsiwn yn unig.
- 4.26 Ni chaniateir i hysbysebion ar gyfer diodydd meddwol gael eu hanelu at blant ac ni chânt annog yfed eithafol ar alcohol. Hefyd, mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion hysbysebu cyffredinol isod.

### Gofynion hysbysebu cyffredinol

- 4.27 Dim ond os ydynt yn bodloni'r gofynion canlynol y gellir cynnwys hysbysebion ar gyfer unrhyw beth arall nad yw wedi'i restru uchod:
- Rhaid iddi fod yn hawdd adnabod hysbysebion a gynhwysir ar VSP ac ni ddylent ddefnyddio technegau sy'n manteisio ar bosibilrwydd cyfleu neges yn isganfyddol neu'n llechwraidd.
  - Ni ddylai hysbysebion ar VSP niweidio parch at urddas dynol; cynnwys neu hyrwyddo gwahaniaethu ar sail rhyw, hil neu darddiad ethnig, cenedligrwydd, crefydd neu gred, anabled, oedran neu dueddfryd rhywiol; annog ymddygiad sy'n niweidiol i iechyd neu ddiogelwch; neu annog ymddygiad sy'n hynod niweidiol i'r gwaith o ddiogelu'r amgylchedd.
  - Ni ddylai hysbysebion ar VSP achosi niwed corfforol, meddyliol neu foesol i bobl dan 18 oed; cymell yn uniongyrchol pobl o'r fath i brynu neu logi nwyddau neu wasanaethau mewn ffordd sy'n manteisio ar eu diffyg profiad neu eu parodrwydd i gredu; annog pobl o'r fath yn uniongyrchol i ddarbwylllo'u rhieni neu eraill i brynu neu logi nwyddau neu wasanaethau;

## Rheoleiddio llwyfannau rhannu fideos

manteisio ar yr ymddiriedaeth sydd gan bobl o'r fath yn eu rhieni, athrawon neu bobl eraill; neu yn afresymol ddangos pobl o'r fath mewn sefyllfaedd peryglus.

## 5. Cwestiynau Cyffredin

### **Pryd fydd Ofcom yn darparu rhagor o arweiniad ar reoleiddio VSPs?**

- 5.1 Mae Ofcom yn bwriadu ymgynghori ar y canllaw ynghylch cwmpas ac awdurdodaeth yn nes ymlaen yn 2020 a'i gyhoeddi cyn mis Ebrill 2021, a bryd hynny bydd angen i ddarparwyr VSP hysbysu Ofcom.
- 5.2 Mae Ofcom yn bwriadu ymgynghori ar y canllaw ar niwed a mesurau priodol ddechrau 2021, gyda'r nod o'i gyhoeddi yn yr haf 2021.
- 5.3 Ymgynghorir ynghylch y canllaw ar ofynion hysbysebu, yn ogystal â'r drefn gorfodi ar gyfer hysbysebu ar VSPs, yn gynnar yn 2021 a'i gyhoeddi erbyn haf 2021.

### **A fydd Ofcom yn rheoleiddio pob VSP?**

- 5.4 Na, bydd Ofcom yn gyfrifol am reoleiddio'r VSPs yn y DU yn unig. O dan feini prawf y Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ar gyfer penderfynu ar awdurdodaeth VSPs, mae'n debygol y bydd rhai o'r VSPs mwyaf poblogaidd, fel YouTube a Facebook, yn dod o dan awdurdodaeth Iwerddon.

### **Sut fydd Ofcom yn monitro cydymffurfiad y VSPs?**

- 5.5 Mae Ofcom yn datblygu dull o fonitro cydymffurfiad darparwyr VSPs. Yn ystod y cyfnod rheoleiddio cynnar, byddwn yn ymgysylltu â darparwyr VSP a'r diwydiant ehangach yn rheolaidd ac yn cynnal ymchwil barhaus ar brofiadau defnyddwyr.

### **A fydd angen i ddarparwyr VSP roi gwybod i Ofcom?**

- 5.6 O 6 Ebrill 2021 bydd yn rhaid i ddarparwyr VSP presennol roi gwybod i Ofcom am eu gwasanaethau. Rhaid hysbysu Ofcom erbyn 6 Mai 2021. Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn ymgynghori ar ganllaw pellach a luniwyd i helpu darparwyr i ddeall a yw eu gwasanaeth yn bodloni'r diffiniad o VSP ac a yw o fewn awdurdodaeth y DU, yn ogystal â'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i roi gwybod i Ofcom am y gwasanaeth. Yn y cyfamser, dylai darparwyr VSP ddefnyddio'r meini prawf mewn deddfwriaeth (a grynhoir uchod) i asesu a ydynt yn rhan o gwmpas rheoliadau'r DU.

### **Fydd rhaid i ddarparwyr VSP dalu ffi?**

- 5.7 Bydd disgwyl i ddarparwyr VSP dalu ffi rheoleiddio bob blwyddyn ariannol o fis Ebrill 2022 ymlaen. Cyn cwblhau'r strwythur ffioedd rheoleiddio, bydd Ofcom yn cynnal ymgynghoriad gyda'r diwydiant i sicrhau ei fod yn briodol ac yn gymesur.

## A yw'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i VSPs fonitro gwybodaeth?

- 5.8 Ni ddylid ystyried bod y gofyniad i roi'r mesurau a nodir yn y ddeddfwriaeth ar waith yn gosod rhwymedigaeth gyffredinol ar ddarparwr llwyfan rhannu fideos i fonitro'r wybodaeth y mae'n ei throsglwyddo neu'n ei storio, na rhwymedigaeth gyffredinol i fynd ati i chwilio am ffeithiau neu amgylchiadau sy'n dangos gweithgarwch anghyfreithlon.<sup>19</sup>

## Beth fydd yn digwydd ar ddiwedd cyfnod pontio Brexit?

- 5.9 Mae rhoi'r AVMSD ddiwygiedig ar waith yn ofynnol fel rhan o rwymedigaethau'r DU sy'n deillio o'i haelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, a'r Cytundeb Ymadael. O fis Ionawr 2021 ymlaen (ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben) bydd y fframwaith VSP yn parhau i fod yn berthnasol<sup>20</sup> nes bydd y drefn Niwed Ar-lein yn dod i rym ac yn disodli'r drefn VSP.
- 5.10 Cyflwynwyd offeryn statudol "pennu" ar 15 Hydref 2020 a oedd yn egluro pryd y bydd VSP yn dod o dan awdurdodaeth y DU ar ôl i gyfnod pontio Brexit ddod i ben. Gweler paragraff 2.11 i gael rhagor o wybodaeth.
- 5.11 Deallwn fod y Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno offeryn statudol "pennu" arall yn ddiweddarach eleni, a fydd yn cynnwys manylion yr atebion technegol sy'n ofynnol ar ôl y cyfnod pontio.

## Beth fydd y drefn Niwed Ar-lein yn ei olygu ar gyfer rheoleiddio VSPs?

- 5.12 Rydym yn deall mai bwriad y Llywodraeth yw i'r camau i reoleiddio VSPs fod ar waith nes bydd y drefn Niwed Ar-lein newydd yn dod i rym. Bydd Ofcom yn sicrhau bod cefnogaeth ar gael i wasanaethau wrth symud o un drefn i'r llall.

## Sut mae cysylltu ag Ofcom?

- 5.13 Os hoffech chi gysylltu ag Ofcom ynglŷn â'r drefn newydd, cysylltwch â [VSPRegulation@ofcom.org.uk](mailto:VSPRegulation@ofcom.org.uk).

---

<sup>19</sup> Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa a nodir yn Erthygl 15(1) o'r Gyfarwyddeb e-fasnach (Cyfarwyddeb 2000/31/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 8 Mehefin 2000 ar agweddau cyfreithiol penodol ar wasanaethau cymdeithas wybodaeth, yn enwedig masnach electronig, yn y Farchnad Fewnol).

<sup>20</sup> Gan ei bod yn 'gyfraith yr UE sy'n cael ei dargadw'.